Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Porth Tywyn
# Neuadd Gofa,
# Stryd Parc y Minos
# Porth Tywyn
# Sir Gar
# SA16 0BN

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**


**Eifion R Morgan**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Porth Tywyn sy'n cwrdd yn y Neuadd Goffa sy`n agos at ganol tref harbwr fechan Porth Tywyn. Mae'r dref rhyw 5 milltir i'r gorllewin o Lanelli. Cafodd y Cylch ei sefydlu yn 1975 ac mae'r arweinydd presennol wedi bod yn ei swydd ers 2011.

Mae'r plant sy'n mynychu'r Cylch yn dod o Borth Tywyn a phentref cyfagos Pwll. Mae cefndir cymdeithasol ac economaidd yr ardal yn amrywiol gyda rhai plant o gartrefi difreintiedig. Mae'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi lle nad yw`r iaith Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu. Nid oes unrhyw blentyn ar gofrestr y Cylch yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig, tra bod dau o blant wedi cael eu hadnabod fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn cael cymorth ychwanegol.

Mae'r Cylch ar agor am 41 wythnos y flwyddyn, yn y bore (9 – 11.50 y.b.) a'r prynhawn (1 – 3 y.p.) Mae`r plant yn dechrau yn y Cylch yn dilyn eu penblwydd yn ddwy oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y tymor maen nhw`n 4 oed. Ar hyn o bryd mae 42 o blant ar y gofrestr, 20 ohonynt yn 3 oed a phob un yn cael eu hariannu. Mae'r Cylch wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 24 o blant mewn unrhyw sesiwn. Mae'r rhan fwyaf o`r plant sy`n gadael y Cylch yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, a'r gweddill i'r ysgol cyfrwng Saesneg, Ysgol y Babanod Porth Tywyn.

Mae'r Cylch yn defnyddio un ystafell yn adeilad y Neuadd Goffa. Daw rhieni a Gofalwyr i mewn i`'r adeilad trwy'r giatiau allanol a'r cyntedd. Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei dangos i rieni a gofalwyr ar fwrdd bach yn y cyntedd, yn bennaf i wneud ag addysg feithrin cyfrwng Cymraeg. Mae`r drws i ystafell y Cylch yn ddiogel fel bod neb yn medru dod i mewn na gadael yn ddirybudd. Mae'r ystafell addysgu yn helaeth a defnyddir y waliau i arddangos gwaith y plant, themau a astudir a chynllunio dyddiol. Mae'r ystafell wedi'i gwahaniaethu'n addas i ardaloedd o weithgareddau yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystafell yn cael ei defnyddio hefyd gan fudiadau eraill ac mae hyn yn golygu bod angen rhywfaint o glirio ar ddiwedd y dydd. Fodd bynnag, nid yw `n tarfu llawer oherwydd mae`r mudiadau yn deall goblygiadau hyn ar waith y Cylch ac mewn gwirionedd, nid yw`n amharu llawer. Mae`r plant hefyd yn defnyddio'r ardal o laswellt y tu allan pan fyddant yn mynd allan gyda`r staff. Nid yw`r cynllun cyffredinol yn caniatau i blant y Cylch gael mynediad rhydd i`r ardal hon.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael. Mae chwe aelod o staff sy'n mynychu ar adegau gwahanol ar gyfer y sesiynau, yn dibynnu ar nifer y plant sy'n mynychu. Mae gan y staff gymwysterau da i oruchwylio plant o'r oedran hyn. Mae pob un wedi mynychu cyrsiau perthnasol yn ymwneud ag addysg a gofal plant ifanc. Mae pedwar aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg a'r gweddill ar hyn o bryd yn mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg.

Cefnogir y Cylch gan bwyllgor rheoli gweithredol sy'n cwrdd yn dymhorol neu yn fwy aml yn ôl y galw. Mae'r Cylch hefyd yn derbyn cefnogaeth werthfawr gan Fudiad Meithrin a roddodd iddo statws "Cylch Rhagorol" yn 2012. Mae cymorth da wedi cael

ei ddarparu gan athrawes gefnogol yr Awdurdod Lleol sydd wedi arwain datblygiad y Cylch dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Arolygwyd y Cylch gan yr AGGCC yn 2012. Nid oedd unrhyw argymhellion.  Roedd arolygiad gan Estyn yn 2007 ac mae'r holl argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae Cylch Methrin Porth Tywyn yn leoliad da oherwydd:

- mae`r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y Cylch;
- cefnogir iechyd a lles y plant yn dda;
- mae`r plant yn cael profiadau dysgu da;
- mae`r trefniadau diogelu`n sicrhau bod y plant yn cael gofal a chymorth da;
- mae`r arweinyddiaeth yn effeithiol ac mae ysbryd tîm da yn amlwg ymysg y staff;

y gefnogaeth gan athrawes gefnogi`r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r Cylch Meithrin yn dda oherwydd:

- bod athrawes gefnogi`r awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth dda iawn i`r Cylch;
- mae`r arweinydd a`r staff wedi`u hymrwymo`n llwyr i wella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant;
- hanes gwelliant dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Argymhellion

Mae angen i`r lleoliad:

- Fireinio`i weithdrefnau asesu er mwyn nodi cyflawniadau unigol yr holl blant, yn enwedig eu medrau ac i nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.
- Defnyddio canlyniadau`r asesu yn y cynllunio fel bod profiadau dysgu`n cyfateb yn dda i allu`r plant ac i`w darparu â gwaith heriol.
- Paratoi cynllun datblygu yn seiliedig ar yr adroddiad hunanarfarnu sy`n blaenoriaethu materion i`w gwella a sut byddant yn cael eu cyflawni a`u gwerthuso.

### ***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr holl feysydd dysgu o`u mannau cychwyn amrywiol ac yn cyflawni safonau da. Mae gan blant o bob gallu yr hunan-hyder i ddewis gweithgareddau a chymryd rhan weithredol mewn tasgau a osodir ar eu cyfer. Mae llawer yn gallu dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser.

Mae`n bosib deall pob plentyn yn siarad, ac er eu bod yn fwy hyderus yn defnyddio`r iaith Saesneg, mae pob un yn datblygu eu gallu yn yr iaith Gymraeg i raddau gwahanol. Mae`r plant yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg ac yn sgil eu hymateb mae'n amlwg eu bod yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Mae`r holl blant yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau a ofynnir gan oedolion a nodwedd arbennig yw eu cymhwysedd a'u parodrwydd i ganu caneuon a rhigymau Cymraeg. Mae llawer o blant yn ymateb yn frwdfrydig i storïau Cymraeg ac yn mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg.

Mae medrau allweddol y plant yn datblygu'n dda ar draws cwricwlwm eang. Maent yn mynegi eu hunain gyda hyder cynyddol wrth iddynt aeddfedu gyda rhai yn ateb cwestiynau a gofynnir gan oedolion yn y Gymraeg, fel yn ystod cofrestru yn y bore a'r prynhawn. Maent yn adnabod eu henwau ar dagiau enw ac yn ymateb i gwestiynau personol. Caiff y plant gyfleoedd da iawn i edrych ar lyfrau. Mae`r gornel ddarllen yn lleoliad cyfforddus a phoblogaidd lle mae`r plant yn trin llyfrau yn briodol. Gall y plant hŷn a mwy galluog adnabod ac enwi cymeriadau cyfarwydd mewn storïau Cymraeg. Mae'r plant mwy galluog yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, fel gwneud rhestr o'u gofynion. Mae'r holl blant yn arbrofi gyda gwneud marciau.

Mae gan bob plentyn fynediad i gyfrifiadur ac mae llawer yn medru trin llygoden y cyfrifiadur ac eiconau i gynhyrchu siapiau lliw ar y sgrin. Cafodd y plant eu gweld yn defnyddio camerâu digidol, chwarae rôl gyda ffonau symudol ac mae ganddynt brofiad o ddefnyddio Bee-Bot.

Yn gyffredinol, mae`r plant yn cyflawni'n dda ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

**Lles: Da**

Mae`r holl blant yn dangos diddordeb yn y tasgau a`r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Maent yn dangos eu mwynhad o fynychu'r Cylch drwy eu brwdfrydedd a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae`r plant yn ystyriol ac yn dangos llawer o ofal am ei gilydd. Maent yn ymwneud yn dda â'i gilydd ac oedolion. Nodwedd nodedig yw'r diddordeb mae`r plant yn ei ddangos ar gyfer edrych ar lyfrau a gwrando ar storïau a ddarllenir iddynt.

Mae`r plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o sut i gadw'n iach, fel golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn mwynhau gweithgaredd corfforol ac mae eu hunan-hyder yn

dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y Cylch. Maent yn cael eu trin â pharch ac fel canlyniad yn dangos eu parch at oedolion sy'n gweithio yn y Cylch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn sicrhau diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus ac yn rhoi ystyriaeth dda o'r sgiliau sydd angen er mwyn i blant gael mynediad i'r cwricwlwm llawn a gwneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Rhoddir ystyriaeth dda i ddiddordebau`r plant ac mae hyn yn helpu`r plant i gymryd rhan weithredol. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd gan wneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff.

Mae`r cynllunio yn seiliedig ar themâu a ddewiswyd ac yn ymgorffori sgiliau i'w datblygu. Ar y cyfan, mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol y plant, trwy ddefnyddio tasgau â ffocws sy'n ystyried gwahanol alluoedd a chyflawniadau`r plant. Mae`r gweithgareddau dysgu yn annog plant i weithio gyda'i gilydd, i gyd-weithio a ffurfio perthynas dda. Maent yn trin ei gilydd gyda pharch ac yn oddefgar. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn helpu`r plant i ddatblygu eu hunan-hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae`r cynllunio yn caniatáu digon o gyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau creadigol y plant ac mae ymweliadau â'r ardal leol yn rhoi cyfle i blant gael dealltwriaeth dda o'u cymuned.

Mae`r cynllunio ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn seiliedig ar yr athroniaeth o drochi`r plant yn yr iaith. Mae`r staff yn sgwrsio gyda'r plant yn y Gymraeg ac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y gallant. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael ei ddatblygu trwy weithgareddau sy`n seiliedig ar ddathliadau Cymru, gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae `r Cylch yn casglu papur gwastraff ond mae syniadau'r plant am gynaliadwyedd ac ailgylchu heb datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd. Mae syniadau`r plant am eu rôl yn y gymuned yn cael eu datblygu'n dda drwy ymweliadau â'r ardal leol ac ymwelwyr sy'n ymweld â'r Cylch.

**Addysgu: Da**

Mae`r staff yn brofiadol ac mae ganddynt wybodaeth ddiweddar o ddatblygiad plant. Mae pob un wedi mynychu cyrsiau diweddar a pherthnasol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Caiff y plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu cefnogi'n dda a gwneir darpariaeth i gefnogi plant o wahanol alluoedd yn ystod gweithgareddau tasgau â ffocws.

Mae cydbwysedd da yn bodoli rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio neu eu harwain gan oedolion. Mae`r staff sy'n gweithio gyda grwpiau bach o blant yn eu rheoli'n dda ac maent yn ymateb yn hyblyg i anghenion plant ac yn cymryd ystyriaeth o allu plant a chyrhaeddiad blaenorol.

Mae'r staff yn fodelau iaith da ac fel canlyniad yn tynnu sylw`r plant at yr iaith Gymraeg fel iaith fyw. Mae`r staff hefyd yn defnyddio canmoliaeth yn dda i annog plant i gymryd rhan ac i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Mae`r staff yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio ac yn cael eu briffio'n dda am eu rolau. Maent yn cefnogi ei gilydd yn dda ac yn gweithio'n dda fel tîm er lles y plant. Mae`r staff yn asesu plant yn rheolaidd yn ystod tasgau ffocws, yn ystod gweithgareddau darpariaeth uwch ac yn ystod chwarae rhydd. Mae'r arsylwadau hyn yn cael eu cofnodi mewn ffeil gofnod i blant unigol. Mae hwn yn gofnod da o gynnydd plant unigol. Mae cyflawniadau a diddordebau`r plant yn rhoi sail dda ar gyfer cynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cofnodion cyrhaeddiad yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad plant unigol, yn enwedig eu medrau. Nid yw'r camau nesaf yn nysgu `r plant yn cael eu nodi'n glir yn y cynllunio ac o ganlyniad nid yw tasgau bob amser yn cyfateb yn dda â gallu plant nac yn rhoi gweithgareddau heriol iddynt.

Mae rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o gynnydd eu plentyn ond nid oeddent yn gwbl ymwybodol o'r hyn y gallent ei wneud i helpu eu plant i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn dda.

Mae`r gweithgareddau o ddydd-i-ddydd yn llwyddo i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae'r holl blant yn gwybod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir ac yn gweithredu'n unol â hynny. Mae`r hunan-hyder mae`r plant yn ei ddatblygu yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb. Mae`r plant yn cael eu hannog i fod yn rhan o`r Cylch ac i helpu gyda threfniant cyffredinol y Cylch. Maent yn helpu gyda golchi llestri, clirio i ffwrdd a pharatoi ar gyfer amser byrbryd.

Mae`r rhieni yn parchu ac yn ymddiried yn y Cylch i wneud y gorau ar gyfer eu plant. Defnyddir gwasanaethau arbenigol pan fydd angen ac mae`r plant yn elwa o gymorth proffesiynol. Ar hyn o bryd mae`r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth 1:1.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle o ran diogelu plant. Arweinydd y Cylch yw'r person enwebedig ar gyfer goruchwylio materion amddiffyn a diogelu plant. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae`r polisïau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae'r lleoliad yn galluogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i fanteisio ar bob maes dysgu. Caiff cynnydd plant ei adolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â rhieni. Lle bo angen, mae`r plant yn derbyn cymorth 1:1 ac mae gan bawb gynllun addysgol unigol lle mae targedau ac anghenion penodol yn cael eu nodi. Caiff cefnogaeth broffesiynol ei ddarparu yn ôl yr angen. Yn gyffredinol, mae cefnogaeth o

ansawdd yn cael ei ddarparu ar gyfer plant ag anawsterau addysgol, emosiynol neu ymddygiadol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y Cylch ethos gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael eu croesawu beth bynnag yw eu cefndir. Mae gan bob un hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau, gan gynnwys ymweliadau â'r gymuned.

Mae`r plant yn mwynhau amgylchedd sy'n rhydd oddi wrth unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.

Mae'r Cylch yn cael ei staffio`n hael. Mae gan bob un gymwysterau perhnasol a phriodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae yna ddigon o adnoddau i fynd i`r afael â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r gornel ddarllen yn lleoliad cyfforddus gyda chyflenwad da o lyfrau stori yn y Gymraeg. Mae`r holl blant yn mwynhau y cyfleuster hwn. Mae'r ardal chwarae rôl hefyd yn ddarpariaeth diddorol a deniadol sy'n gwella dysgu plant. Drwyddi draw, gwneir defnydd da o'r adeiladau sy`n darparu amgylchedd dysgu deniadol i`r plant.

Nid oes gan y plant fynediad uniongyrchol â`r tu allan ac ni ellir dychmygu sut y gellir cyflawni hyn. Fodd bynnag, gwneir defnydd o'r tir glas y tu allan pan fydd grwpiau o blant yn cael mynd allan o dan oruchwyliaeth aelod o staff. Nodwedd da ac amlwg yw`r ymweliadau niferus wnaiff y plant â`r gymuned ac ymhellach.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd sydd wedi bod yn y swydd am ddwy flynedd wedi darparu `r Cylch â chyfeiriad a phwrpas clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant.

Mae'r Cylch yn dangos synnwyr o bwrpas sydd wedi hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn y ddarpariaeth ac ansawdd yr addysg sydd wedi`i ddarparu ar gyfer y plant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r arweinydd yn cael ei chefnogi'n dda gan ei dirprwy a'r holl staff eraill. Fel tîm maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, pob un yn cyflawni eu swyddogaethau yn effeithlon ac yn ategu ei gilydd. Mae'r Cylch yn dangos parodrwydd i geisio sicrhau gwelliannau er budd y plant. Mae`r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion gyda'r holl staff yn cyfrannu at y broses gynllunio. Mae`r staff yn llwyddo i greu awyrgylch gwaith dymunol ar gyfer y plant.

Mae`r staff newydd, gan gynnwys myfyrwyr ar brofiad gwaith, yn cael ei sefydlu i waith y Cylch ac yn fuan iawn yn gweithredu fel aelod gwerthfawr o'r tîm. Caiff gwerthuso ei wneud yn rheolaidd a chaiff anghenion staff eu cyfateb â chyrsiau hyfforddi proffesiynol a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mae cysylltiadau da iawn gyda rhieni yn eu lle.

Mae'r pwyllgor rheoli yn effeithiol ac yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Maent yn ymwybodol iawn o waith y Cylch ac yn gwerthfawrogi ymroddiad y staff. Maent yn

cael eu hysbysu'n dda am waith y Cylch. Mae'r Cylch wedi cymryd ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac yn cynnwys dadansoddiad llawn o bob un o ddangosyddion ansawdd Estyn. Ym mhob achos mae'r ddogfen hunanarfarnu yn ehangu lle bo angen er mwyn rhoi darlun cyflawn o'r Cylch. Roedd hwn yn ymarfer a wnaed ar y cyd ac yn gynnwys yr holl staff gan gymryd amser ac ymdrech sylweddol. Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn tynnu sylw at gryfderau`r Cylch yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr enillion cadarnhaol ar gyfer plant. Mae'r ddogfen yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid yn seiliedig bob amser ar dystiolaeth sydd ar gael o gyflawniad plant. Mae meysydd i'w gwella yn cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu - mae'r rhain yn realistig ac yn arwain at well ddarpariaeth ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid yw meysydd ar gyfer gwella yn cael eu blaenoriaethu ac nid yw manylion y gweithdrefnau arfarnu yn cael eu datgan bob amser.

Mae ymarferwyr yn mynychu cyrsiau datblygu proffesiynol ac mae'r rhain wedi bod yn fuddiol. Mae'r pwyllgor rheoli Cylch yn cefnogi presenoldeb y staff ar gyrsiau o'r fath. Mae effaith hyfforddiant proffesiynol yn cael ei gwerthuso o ran budd i'r plant. Mae cysylltiadau da yn bodoli gyda mudiadau cymunedol a gyda lleoliadau meithrin eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae `r Cylch yn cynnal cysylltiadau da â'r gymuned, rhieni a'r ysgol gynradd. Mae ymweliadau ac ymwelwyr o'r gymuned leol yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth o'u cymuned leol a rôl gwahanol bobl yn y gymuned.

Roedd trafodaeth gyda sampl o rieni a gofalwyr yn dod â'u plant i'r Cylch yn cadarnhau y teimlad o ymddiriedaeth a chyfathrebu clir sy'n bodoli, yn ogystal â`u cefnogaeth o'r Cylch. Mae`n hawdd i rieni fynd at staff y Cylch i drafod unrhyw faterion sy`n achosi pryder iddynt. Mae`r cysylltiadau sydd wedi`u sefydlu`n dda gyda'r athrawon derbyn yn yr ysgol gynradd, gan gynnwys ymweliadau gan yr athrawon hyn, yn hwyluso trosglwyddiad y plant.

Nodwedd ragorol o'r bartneriaeth yw'r gefnogaeth a ddarperir gan athrawes gefnogi yr awdurdod lleol. Mae ei chyfraniad wedi bod yn hynod effeithiol wrth ddatblygu'r Cylch dros y ddwy flynedd ddiwethaf a thrwy ymweliadau rheolaidd, trafodaeth a chyngor, mae ansawdd y ddarpariaeth wedi ei gwella'n sylweddol. Mae'r Cylch yn gwerthfawrogi`r cymorth hwn, ac yn ei dro, wedi bod yn barod i dderbyn cyngor a syniadau a'u hymgorffori yn y cynllunio ac fel canlyniad, mae ansawdd y ddarpariaeth wedi gwella.

Mae `r Cylch yn elwa hefyd o gefnogaeth a ddarperir gan Fudiad Meithrin o ran datganiadau polisi a chyngor, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad yr iaith Gymraeg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm gan ategu eu hun yn eu dyletswyddau.  Maent i gyd yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau.  Mae`r staff yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae hyn yn sicrhau bod eu harbenigedd yn cael ei ddefnyddio'n dda.  Mae'r arweinydd yn cael ei chefnogi'n dda gan y dirprwy arweinydd.

Mae`r staff wedi'u hyfforddi'n briodol ym maes Gofal Plant ac mae`r lleoliad yn elwa o gael myfyriwr o sefydliad "Cam wrth Gam."  Mae`r rhan fwyaf o'r staff yn rhugl yn yr iaith Gymraeg ac eraill yn deall yr iaith, mae ganddynt eirfa dda, sylfaenol yn y Gymraeg ac yn cymryd rhan mewn dysgu'r iaith.

Mae`r staff yn llwyddo i gymell y plant i ddysgu gan defnyddio eu harbenigedd yn y ffordd orau.  Defnyddir yr ardal tu allan lle`n bosib, er nad oes mynediad uniongyrchol iddi.

Yn gyffredinol, defnyddir adnoddau yn dda ac mae'r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd un ar ddeg o holiaduron eu dychwelyd. Gofynnwyd i rieni i ymateb i 16 datganiadau a nodi un o bum categori - "cytuno'n gryf, cytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf neu ddim yn gwybod".

Gellir crynhoi yr ymatebion fel hyn:

Roedd yr holl ymatebwyr yn "cytuno" a tua thri chwarter yn "cytuno'n gryf" â'r datganiadau canlynol:

*Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
*Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae'r addysgu yn dda.*
*Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
*Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Rwy'n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.*
*Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*
*Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Roedd hanner yr ymatebwyr yn "cytuno" gyda`r datganiad:

*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn*

tra bod y 50% arall yn "cytuno'n gryf".

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r Cylch. Maent yn dangos brwdfrydedd ac yn cymryd rhan yn gyflym yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae ganddynt yr hunan hyder i siarad ag ymwelydd, ac i ddisgrifio'r hyn y maent yn ei wneud. Dywedodd y plant eu bod yn arbennig o hoff o edrych ar lyfrau a gwrando ar storïau.

## Atodiad 2

**Y arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |